CCWLSIR IIC 22
Senedd Cymru | Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee
Effaith costau cynyddol / Impact of increasing costs
Ymateb gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru / Response from National Library of Wales

Aberystwyth SY23 3BU | 01970 632800 | gofyn@llyfrgell.cymru | www.llyfrgell.cymru

Delyth Jewell AS
Cadeirydd,
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd
CF99 1SN

15 Medi 2022

Annwyl Gadeirydd,

Rydym yn croesawu'r cyfle i rannu ein pryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae cynnydd parhaus mewn costau a'u hanwadalrwydd yn her anodd i'r Llyfrgell Genedlaethol. Bydd y gwariant a ragwelwyd gennym ar gyfer 2022/23 yn fwy na swm y Grant Cymorth (GiA) y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru: bydd cyfanswm y sylfaen costau oddeutu £13M, ac mae GiA yn £11.060M.

Mae'r Llyfrgell yn cael ei heffeithio'n andwyol gan y cynnydd mewn chwyddiant a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar gyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â staff. Yn benodol, mae'r Llyfrgell wedi cael ei heffeithio'n sylweddol gan y cynnydd mewn costau ynni. Cost ynni cyllidebol 2021/22 oedd £267K (£87K ar gyfer nwy a £180K ar gyfer trydan) gan adlewyrchu'r sefyllfa ar y pryd. Amcangyfrifir bellach bod y gost barhaus wedi cynyddu o leiaf bedair gwaith yn seiliedig ar brisiau cyfredol a bydd y gost debygol yn cyrraedd cymaint â £1.25M y flwyddyn. Pe baem ni, ynghyd â'r sector gyhoeddus yn ehangach, yn wynebu prinder ynni ni fyddem yn gallu cynnal y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar hyn o bryd.

Mae'r cyfyngiadau ariannol a chostau gweithredol ychwanegol yn achos pryder mawr i ni fel ceidwaid casgliadau'r genedl. Mae gostyngiadau mewn cyllidebau cyfalaf wedi lleihau buddsoddiad yn seilwaith y Llyfrgell. Mae methu â gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ac uwchraddio peiriannau ac offer yn risg cynyddol i'r Llyfrgell Genedlaethol. Er enghraifft, mae gan yr adeilad system o ddamperi tân a mwg awtomatig sydd, os bydd tân, yn gwaredu mwg a charbon deuocsid o gelloedd archif ac ardaloedd storio. Cafodd y system ei gosod 27 mlynedd yn ôl ac nid yw bellach yn darparu amddiffyniad rhag mwg a thân i'r prif ardaloedd storio. Mae prosesau i liniaru'r risg wedi cael eu rhoi ar waith, ond mae risg difrifol iawn o hyd i'r casgliadau ac mae hynny, yn ein barn ni, yn hollol annerbyniol heb gyllid ychwanegol.

Nid oedd Llyfrgell Genedlaethol yn gallu goroesi'r cynnydd digynsail presennol mewn costau gweithrediadol, yn dilyn gostyngiadau dros nifer o flynyddoedd yn y Grant Cymorth sydd wedi gwanhau ei gwytnwch ariannol yn ddifrifol. Yn 2020, daeth aelodau o banel yr Adolygiad Teilwredig i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Llyfrgell ar y pryd hwnnw yn anghynaliadwy, gan argymell y dylai swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad ar y cyd gydag argymhellion i'r Dirprwy Weinidog. Gyda'r pwysau ychwanegol a osodwyd ar swyddogion ers 2020, ac yn arbennig felly mewn perthynas â phandemig Covid, dyw'r adroddiad pwysig hwn

heb ei baratoi eto. Fodd bynnag, mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn rhoi rhywfaint o obaith inni y bydd cynaliadwyedd ein sefydliadau diwylliannol yn hoelio sylw aelodau o'r Senedd yn ystod oes y senedd hon. Ni ddylai'r ymrwymiad hwn gan y ddwy ochr gael ei ohirio ymhellach o ystyried yr heriau presennol y mae ein sefydliadau diwylliannol yn eu hwynebu.

Ymhellach, mae gweithredu argymhellion yr Adolygiad Teilwredig wedi arwain at gynnydd parhaus mewn costau refeniw o oddeutu £300K y flwyddyn. Bu i'r Llyfrgell dderbyn grant unigol o £750K er mwyn ein helpu i fynd i'r afael â rhai o argymhellion yr Adolygiad, gan gynnwys lleihau ein gweithlu drwy ddiswyddiadau gwirfoddol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ariannu'r costau parhaus.

A hithau'n un o sefydliadau diwylliannol pwysicaf y genedl mae'r Llyfrgell wedi gweld cyfnod ariannol anodd dros y ddeuddeg mlynedd diwethaf, gydag incwm yn gostwng mewn termau real. Byddai'r £9.969M a dderbyniwyd yn 2007/08 o'i gynyddu yn ôl cyfradd chwyddiant yn cyfateb i £13.253M yn 2019/20. Y swm gwirioneddol a dderbyniwyd yn 2019/20 oedd £9.985m, sy'n cynrychioli gostyngiad mewn termau real o 33%. Yn ystod yr un cyfnod, lleihaodd nifer y staff o 276 i 221 – gostyngiad sylweddol o 20% yn niferoedd staff. Yn 2021–22 derbyniodd y Llyfrgell godiad o £1M i'w gwaelodlin, ond mae buddion y codiad penodol hwnnw eisoes wedi'u lleihau gan Lywodraeth Cymru.

| | **2007–2008** | **2019–2020** | **2020–2021** |
|---|---|---|---|
| **Grant Cymorth (GiA)** | £9.969M | £9.985M | £10.444M |
| **Niferoedd Staff** | 276 | 221 | 216 |

Os yw'r GiA yn parhau ar y lefelau yr hysbyswyd y Llyfrgell amdanynt, a bod y costau yn cynyddu fel y rhagwelwyd, yna bydd y diffyg strwythurol yn cynyddu fel a ganlyn:

| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **GiA** | **11,060** | **11,270** | **11,651** |
| | | | |
| Sylfaen costau | 12,100 | 13,000 | 14,390 |
| Dyfarniadau cyflog | 900 | 990 | 500 |
| Chwyddiant nad yw'n ymwneud â staff | | 400 | 300 |
| **Cyfanswm sylfaen costau** | **13,000** | **14,390** | **15,190** |
| | | | |
| **Diffyg blynyddol** | **-1,940** | **-3,120** | **-3,539** |
| Diffyg cronnus | -1,940 | -5,060 | -8,599 |

Bydd codiad cyflog yn cynyddu costau o £2.39M dros y 3 blynedd nesaf: £900K yn 2022/23, £990K yn 2023/24 a £500K yn 2024/25 a bydd costau rhedeg heb gynnwys staff yn cynyddu o oddeutu £700K dros y cyfnod: £400K yn 2023/24 a £300K yn 2024/25. Bydd y cynnydd hwn mewn costau yn symud gwaelodlin cost y Llyfrgell o £12M i £15.1M erbyn 2024/25. Bydd y GiA yn cynyddu i £11.6M yn ystod yr un cyfnod, gan greu diffyg o oddeutu £3.5M y flwyddyn.

**Opsiynau lleihau costau:**

Os na lwyddir i sicrhau cynnydd i GiA’r Llyfrgell, ac os mai’r teimlad yw na fydd arian preifat y Llyfrgell ar ben ei hun yn ddigonol i unioni’r gyllideb refeniw, yna bydd yn rhaid i’r Ymddiriedolwyr wynebu llawer o heriau anodd a gwneud nifer o benderfyniadau anodd iawn fel mater o frys, gan gynnwys y posibilrwydd o weithredu rhai, os nad y cyfan, o’r mesurau canlynol er mwyn torri costau:

- Lleihau gweithlu’r Llyfrgell drwy ddiswyddiadau gwirfoddol a gorfodol. (Amcangyfrifir y byddai cynnig cynllun diswyddo gwirfoddol ond yn denu dyrnaid o geisiadau, os o gwbl, ac felly'r unig ffordd o leihau’r gweithlu fyddai trwy ddiswyddiadau gorfodol. Byddai gweithredu o’r fath gan y Llyfrgell yn ennyn condemniad ac anfodlonrwydd.)
- Lleihau oriau gwaith staff llawn amser o 37 awr yr wythnos i 35 awr neu lai a gostwng cyflog yn gymesur. (Byddai’n rhaid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â staff a’r Undebau sy’n annhebygol o dderbyn newidiadau o’r fath i amodau eu gwasanaeth, yn enwedig yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd bresennol a’r cynnydd mewn costau byw.)
- Adolygu effeithlonrwydd gwasanaethau presennol (gan gynnwys gwasanaethau craidd) a diwygio Llythyr Cylch Gorchwyl y Dirprwy Weinidog. (Gwnaed hyn eisoes mor ddiweddar â 2020-21 yn ystod y broses ailstrwythuro ddiwethaf ac ni fyddai’n bosibl gwneud unrhyw arbedion effeithlonrwydd pellach i’r gwasanaethau presennol: yr unig ddewis ar gael byddai i ddod â rhai gwasanaethau i ben yn gyfan gwbl. Byddai ein hanallu i ymateb mewn ffordd bositif i flaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cael effaith niweidiol ar ddyhead y Llyfrgell i wella bywydau unigolion a chymunedau.)
- Ailedrych ar Gynllun Strategol y Llyfrgell a chyflwyno newidiadau i’w chynllun gweithredu sy’n adlewyrchu’r gostyngiad mewn adnoddau.
- Rhewi codiadau cyflog o 2023, oni bai bod swm cyfatebol yn cael ei ychwanegu at y waelodlin GiA. (Byddai hyn eto yn ennyn beirniadaeth ac anfodlonrwydd, yn arbennig felly yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd bresennol.)
- Cytundebau rhan-amser. (Fel uchod.)
- Rhoi strategaeth adeiladau’r Llyfrgell ar waith yn rhannol yn unig.
- Newidiadau i Gynllun Pensiwn y Llyfrgell neu fabwysiadu cynllun newydd/dod â’r cynllun presennol i ben (eisoes ar waith).

Bydd mesurau torri costau a phwysau costau byw yn cael effaith negyddol ar weithredu cynllun strategol y Llyfrgell a hefyd ein gallu i gyflawni amcanion Llythyr Cylch Gorchwyl y Dirprwy Weinidog. Heb gymorth ariannol pellach parhaus gan Lywodraeth Cymru, byddai effaith ar y canlynol yn arbennig:

1. Datgarboneiddio: dim ond yn rhannol fyddai'n bosib rhoi rhaglen datgarboneiddio'r Llyfrgell ar waith e.e. byddai angen parhau i ddefnyddio peiriannau ac offer aneffeithiol sydd angen eu gwaredu ar sail iechyd a diogelwch.
2. Mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol: byddai lleihau lefelau staff yn cyfyngu ar yr hyn allwn ni ei gyflawni wrth inni geisio blaenoriaethu rhoi ein cyfrifoldebau statudol ar waith, gan weithredu fel llyfrgell adnau cyfreithiol a chynnal statws y Llyfrgell fel Llyfrgell Adnau Cyfreithiol.
3. Diswyddiadau: mae diweithdra yn achosi straen, ac mae hynny yn achosi sgil effeithiau hirdymor i iechyd ffisiolegol ac yn gallu achosi effeithiau negyddol ar iechyd meddwl pobl, gan gynnwys iselder, gorbryder a hunanhyder pobl. Byddai gweithred o'r fath hefyd yn cael effaith ar waith y Llyfrgell gyda'r posibilrwydd o golli sgiliau sy'n unigryw i'r sector a byddai hynny wedyn yn anodd i'w ddad-wneud; byddai unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn fwy anodd fyth i'w cyflawni a'u cynnal.
4. O ran hyrwyddo iechyd a lles er enghraifft, mae'r Llyfrgell wedi gweithio'n dda gyda byrddau iechyd mewn perthynas â gwella darpariaeth iechyd meddwl, fodd bynnag mae'n bosib na fyddai gweithredu mesurau i leihau costau o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau gweithrediadol yn caniatáu i ni ymhel â datblygiad arfaethedig fframwaith Cymru gyfan ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn y dyfodol. Mae gan y Llyfrgell a'r sector diwylliant yn ehangach ran hanfodol i'w chwarae er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael adferiad ôl-Covid llwyddiannus, a bydd yr heriau presennol sy'n deillio o gostau byw yn anochel yn lleihau'r hyn allwn ni ei gyflawni â'r traweffaith gwirioneddol y gallwn ei sicrhau o ran ehangu cyfleodd i ymgysylltu a chyfranogi.
5. Creu cyfleoedd i bobl ifanc: ni fyddai prentisiaethau a chynlluniau hyfforddiant yn fforddiadwy.

Os caiff y Llyfrgell ei gorfodi i leihau ei gweithlu a'i gwasanaethau yna bydd cynnal cyfnod o ymgynghori gyda staff, Undebau Llafur a rhanddeiliaid yn rheidrwydd cyfreithiol. O ganlyniad, bydd gweithredu'r mesurau hyn i arbed costau yn debygol o ddigwydd yn ystod 2023/24. Gan nad yw'n bosib rhoi'r mesurau yma ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol hon mae Ymddiriedolwyr y Llyfrgell wedi cytuno mewn egwyddor i ariannu'r diffyg o 2022/23 o gronfeydd preifat y Llyfrgell. Fodd bynnag, nid yw defnyddio arian preifat i ariannu diffygion y dyfodol yn gynaliadwy: mae cyfran helaeth o'n cronfeydd preifat eisoes wedi eu hymrwymo i ariannu a sybsideiddio rhaglenni strategol gan gynnwys costau gweithredol yr Archif Ddarlledu Genedlaethol yn y dyfodol o tua £230K y flwyddyn, (ymrwymiad a wnaethom i Lywodraeth Cymru yn 2019). Mae'n hanfodol felly bod argymhelliad yr Adolygiad Teilwredig mewn perthynas â chyllid parhaus y Llyfrgell yn cael sylw fel mater o frys.

Yn gywir

[redacted]